

Gwybodaeth bwysig am eich e-fil

- o Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod gennych gyfrif e-bost dilys i ddefnyddio'r gwasanaeth e-filiau.
- o Eich cyfrifoldeb chi'n llwyr yw sicrhau bod eich cyfeiriad e-bost yn gywir ac yn ddilys.
- o Os bydd eich cyfrif e-bost yn dod i ben, neu'n annilys am ryw reswm, neu os ydych am i'r bil gael ei anfon i gyfrif e-bost gwahanol, eich cyfrifoldeb chi fydd cysylltu â'r Gwasanaeth Refeniw ar unwaith. Ffoniwch 01352 704848 neu anfonwch e-bost at: [local.taxation@flintshire.gov.uk](mailto:local.taxation@flintshire.gov.uk)
- o Ar ôl cofrestru i gael e-filiau, chi fydd yn gyfrifol am dalu pob bil yr hysbysir ei fod wedi'i anfon i'ch cyfeiriad e-bost hyd yn oed os na fydd y bil yn ymddangos yn eich 'inbox' (e.e. os yw wedi'i ddal mewn wal dân neu hidlwr sbam neu oherwydd bod y cyfeiriad e-bost wedi'i gau neu oherwydd nad yw'n weithredol am unrhyw reswm arall).
- o Os anfonwch gyfeiriad e-bost anghywir neu os na fydd yn weithredol, ac os caiff yr e-fil ei ddychwelyd i'r Cyngor gan nad oes modd ei anfon atoch, byddwn yn tynnu'ch enw'n awtomatig oddi ar y system e-filiau ac o hynny ymlaen byddwn yn anfon biliau papur atoch.